**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

03 Mawrth 2020

Annwyl Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud wrth sicrhau cymhwysedd ar gyfer cyflwyno treth ar dir gwag yng Nghymru. Mae trafodaethau swyddogol bellach wedi dod i ben. Cytunwyd yn ystod cyfarfod diweddar Cyd-bwyllgor y Trysorlysoedd fod cynigion Llywodraeth Cymru wedi cael eu datblygu digon i symud ymlaen i gam nesaf y broses y cytunwyd arni – cais ffurfiol i Lywodraeth y DU ddatganoli cymhwysedd deddfwriaethol yn y maes hwn.

Rwyf bellach wedi cyflwyno'r cais hwnnw. Os ceir cydsyniad gan Lywodraeth y DU, y cam nesaf i Lywodraeth y DU fydd ymgynghori ynghylch goblygiadau cyfansoddiadol datganoli'r cymhwysedd hwn i Gymru. Byddaf yn rhoi diweddariad pellach ar y cynlluniau ar gyfer ymgynghoriad ar lefel y DU yn fuan.

Bydd unrhyw gynigion polisi ar gyfer cyflwyno treth newydd yn cael eu datblygu pan fydd y cymhwysedd angenrheidiol wedi cael ei ddatganoli. Bydd y rhain yn cael eu datblygu yn sgil cyflawni gwaith casglu tystiolaeth pellach ac ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid. Yn ogystal â'r uchod, byddai ymgynghoriad cyhoeddus llawn ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael eu cynnal gan Lywodraeth Cymru cyn paratoi unrhyw ddeddfwriaeth yn y maes hwn.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.